YMATEB LLYWODRAETH CYMRU P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

Roedd y ddeiseb a gyflwynwyd gan Whizz Kidz yn galw am weithredu i sicrhau y gall pobl anabl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pryd bynnag y bo'i hangen arnynt. Roedd hi'n ddeiseb hefyd a oedd yn amlygu'n glir y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth fideo a gyflwynwyd i'r pwyllgor i gyd-fynd â'r ddeiseb yn dangos yn bwerus yr anawsterau y mae pobl anabl yn dod ar eu traws wrth ddefnyddio gwasanaethau y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol.

Mae mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Ers i Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ddod i rym, mae camau sylweddol wedi'u cymryd er mwyn gwella mynediad i wasanaethau bysiau a threnau drwy Brydain. Rydym bellach yn gweld cyflwyno gwasanaethau bysiau lleol sy'n defnyddio cerbydau cyhoeddus ac iddynt loriau is a mynediad gwell, a phatrymau seddi gwell sy'n golygu bod modd cario cadeiriau olwyn yn haws. Er nad yw hynny'n ofyniad statudol, mae cyngor a roddwyd gan y Cydffederasiwn Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghymru yn amcangyfrif bod tua 227 o fysiau'n bodoli sydd â systemau gweledol a chlywedol i gyhoeddi'r stop nesaf, a hynny'n galluogi pobl hŷn, pobl ddall a phobl sy'n colli'u golwg i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hyderus.

O ran mynediad i wasanaethau rheilffyrdd, bydd darpariaethau a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, sef Deddf Cydraddoldeb 2010 bellach, yn gwella mynediad i reilffyrdd yng Nghymru gan y bydd yn rhaid i'r holl gerbydau trên gydymffurfio â rheoliadau mynediad erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynd ati eleni i roi darpariaethau yn y Ddeddf Cydraddoldeb ar waith sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth am y tacsis sydd ar gael sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Er bod y gwelliannau hyn i'w croesawu, cymerodd dros 20 mlynedd i'w rhoi ar waith. Fel y gwelir yn sgil y ddeiseb hon, mae'n amlwg bod gormod o bobl anabl yn dal i wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Yn syml, nid yw hyn yn dderbyniol yn yr unfed ganrif ar hugain, ac rwy'n awyddus i Lywodraeth Cymru wneud mwy er mwyn cael gwared ar rai o'r rhwystrau hyn sy'n parhau i'n hatal wrth geisio creu cymdeithas unedig a chysylltiedig.

Ar y sail honno, ac ran Llywodraeth Cymru, rwy'n croesawu'r argymhellion hyn ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r sector trafnidiaeth gyhoeddus, ein hawdurdodau lleol ac yn bwysicach na dim, pobl anabl a phobl hŷn, a hynny er mwyn ymdrechu o'r newydd i weddnewid ein system trafnidiaeth gyhoeddus a chreu rhwydwaith cynhwysol a hygyrch sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain.

Ken Skates AM/AC

YMATEB MANWL LLYWODRAETH CYMRU

P-05-710 Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chyflwyno cynllun cymorth tebyg i'r waled oren ar gyfer pob gwasanaeth bysiau a rheilffyrdd yng Nghymru ac ymchwilio i ba mor ymarferol yw ei ddefnyddio mewn tacsis a cherbydau hurio preifat.

Ymateb: Derbyn

Mae'r 'Waled Oren' yn un o'r prosiectau cydweithredol rhanbarthol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth fel rhan o 'Strategaeth ASD Cymru Gyfan'. Y nod yw helpu pobl, yn enwedig y rheini ar y Sbectrwm Awtistig, i ymdopi'n haws â thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae nifer o gwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Trenau Arriva Cymru a nifer o'n cwmnïau bysiau lleol, wedi mabwysiadu'r cynllun "waled oren" ac wedi hyfforddi eu staff i ddeall bod angen rhagor o gymorth ar y rheini sydd â "waled oren". Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i annog gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus i fabwysiadu'r cynllun "waled oren". Yn y tymor hwy, rhoddir ystyriaeth bellach i sut y gallwn wneud rhagor i wella ymwybyddiaeth o'r cynllun fel rhan o'n cynigion i wella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Cynigion yw'r rhain sy'n cael eu datblygu gan y Panel Trafnidiaeth Hygyrch.

Goblygiadau ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol pellach gan fod darparwyr trafnidiaeth yn cael eu hannog i fabwysiadu'r cynllun "waled oren" fel rhan o'r cyllid a roddir er mwyn cyflawni rhwymedigaethau gwasanaethau cyhoeddus.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru bwyso ar Network Rail a Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau ffisegol i orsafoedd yng Nghymru sy'n anhygyrch i bobl ag anableddau, a defnyddio ei phwerau ei hun i barhau i fuddsoddi mewn seilwaith hygyrch fel y mae cyllidebau yn caniatáu.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi buddsoddiad ychwanegol fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd, gyda'r nod o wella pa mor hygyrch yw gorsafoedd rheilffordd a gwella gorsafoedd o dan raglen Metro'r de-ddwyrain. Bydd y gwelliannau hyn yn rhoi patrwm ar gyfer gwella gorsafoedd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl a Phanel Trafnidiaeth Hygyrch Llywodraeth Cymru er mwyn annog Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Network Rail yn parhau i fuddsoddi ar lefel briodol yn rhwydwaith rheilffyrdd Cymru.

Goblygiadau ariannol – Nid oes goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru gan nad yw cyllido'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru wedi'i ddatganoli.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phob cwmni trenau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i deithwyr anabl, yn enwedig y posibilrwydd o ddarparu cludiant amgen addas i'r orsaf hygyrch agosaf i deithwyr anabl sy'n methu cael mynediad at wasanaethau yn yr orsaf o'u dewis.

Ymateb – Derbyn

Ceir pedwar o gwmnïau trenau sy'n rhoi gwasanaethau rheilffordd i deithwyr sy'n byw yng Nghymru, a hynny dros bellteroedd byr a hir. Er mwyn cadw eu trwydded weithredu, mae gofyn i bob cwmni trenau gyhoeddi a rhoi ar waith bolisïau i warchod teithwyr sy'n anabl, a'r rheini wedi'u cymeradwyo gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd er mwyn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i deithwyr.

Goblygiadau ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru gan mai mater i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yw cyllido'r gofynion sy'n gysylltiedig â thrwydded y cwmnïau trenau.

Argymhelliad 4

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru sicrhau bod y fanyleb derfynol ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau a datblygiadau'r Metro yn y dyfodol yn cynnwys gofyniad am welliannau sylweddol o ran hygyrchedd gwasanaethau trenau a seilwaith y Metro ar draws pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Dylai ystyried cynnwys gwella hygyrchedd fel rhwymedigaeth gytundebol graidd i'r gweithredwr llwyddiannus a'r partner datblygu.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cwmnïau sydd ar y rhestr fer fel rhan o'r broses o ymgeisio am Fasnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau wedi cael gwybod pa ddisgwyliadau o ran hygyrchedd y bydd gofyn iddynt eu cyflawni yn ystod tymor y cytundeb nesaf. Wrth baratoi eu ceisiadau, gwahoddwyd cwmnïau i geisio cyngor grwpiau cydraddoldeb a gynrychiolir ar Banel Trafnidiaeth Hygyrch Llywodraeth Cymru. Rhaid nodi, fodd bynnag, nad yw'r cyfrifoldeb dros y fasnachfraint rheilffyrdd ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru'n unig wedi'i ddatganoli eto.

Goblygiadau ariannol – Bydd costau unrhyw welliannau a wneir ar ôl rhoi Masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau yn cael eu pennu yng nghytundeb y fasnachfraint a lunnir yn gynnar yn 2018.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cynnwys hygyrchedd fel mesur perfformiad yng nghyfundrefn rheoli perfformiad masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau, gyda chymhellion a chosbau priodol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cwmnïau sydd ar y rhestr fer fel rhan o'r broses o ymgeisio ar gyfer Masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau wedi cael gwybod pa ddisgwyliadau o ran hygyrchedd y bydd gofyn iddynt eu cyflawni yn ystod tymor y cytundeb nesaf. Wrth baratoi eu ceisiadau, gwahoddwyd cwmnïau i geisio cyngor grwpiau cydraddoldeb a gynrychiolir ar Banel Trafnidiaeth Hygyrch Llywodraeth Cymru. Disgwyliwn y bydd y dull o weithio mewn partneriaeth sy'n cael ei annog fel rhan o'r broses ymgeisio bresennol yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith pan lunnir y cytundeb newydd ar gyfer y fasnachfraint. Dylai'r cytundeb newydd hwn olygu bod modd rhannu data am berfformiad ymhlith rhanddeiliaid a grwpiau diddordeb er mwyn monitro perfformiad. Rhaid nodi, fodd bynnag, nad yw'r cyfrifoldeb dros y fasnachfraint rheilffyrdd ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru'n unig wedi'i ddatganoli eto.

Goblygiadau ariannol – Bydd costau unrhyw welliannau a wneir ar ôl rhoi Masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau yn cael eu pennu yng nghytundeb y fasnachfraint a lunnir yn gynnar yn 2018.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys gofyniad craidd ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd gorfodol i staff sy'n ymdrin â chwsmeriaid o dan fasnachfraint newydd Cymru a'r Gororau, a sut y gall annog gweithredwyr yng Nghymru i sicrhau bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant penodol manwl fel sy'n briodol ac yn cynorthwyo teithwyr anabl i 'gyrraedd a mynd' pryd bynnag y bo modd.

Ymateb: Derbyn

Comisiynwyd ymchwil gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl er mwyn edrych ar ansawdd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd sydd ar gael i gwmnïau trenau a bysiau. Mae grwpiau cydraddoldeb yn aml yn dweud bod diffyg hyfforddiant addas i staff rheng flaen yn y sector trafnidiaeth yn rhwystr wrth ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus yng Nghymru. Bydd datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd i staff yn cael ei gynnwys yn amcanion trafnidiaeth hygyrch Llywodraeth Cymru, sef amcanion y disgwyliwn eu cyhoeddi ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau diddordeb a'r gweithredwyr er mwyn datblygu'r hyfforddiant a'n nod yw y bydd modd i bobl anabl "gyrraedd a mynd" ar wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru o dan y fasnachfraint nesaf.

Goblygiadau ariannol – Bydd cost darparu'r hyfforddiant hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o Fasnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyflwyno modiwl ymwybyddiaeth anabledd yng Nghymru, fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau, sy'n cwmpasu anableddau corfforol a meddyliol, a dylai ymchwilio i wneud hyn yn elfen orfodol o'r Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrwyr (DCPC) ar gyfer gyrwyr bysiau sy'n gweithio yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrwyr yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig fel rhan o'r Gyfundrefn Gweithredwyr Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd datblygu hyfforddiant sy'n gwella ymwybyddiaeth o hygyrchedd ymhlith staff yn cael ei gynnwys yn amcanion trafnidiaeth hygyrch Llywodraeth Cymru, sef amcanion y disgwyliwn eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr. Er mwyn parhau i fod yn gymwys i gael taliadau grant drwy Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau Llywodraeth Cymru, bydd gofyn i gwmnïau bysiau sicrhau bod gyrwyr yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o drafnidiaeth hygyrch fel rhan o Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru.

Goblygiadau ariannol – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau bysiau lleol ac yn rhannu'r gost o ddatblygu pecyn hyfforddi ar y cyd â grwpiau anabledd drwy gyllid a fydd ar gael drwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau.

Argymhelliad 8

Rydym yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer canllawiau statudol ynghylch disgwyliadau am wybodaeth i deithwyr, ansawdd gwasanaethau a seilwaith ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ganllawiau o'r fath yn adlewyrchu anghenion pobl anabl. Gallai hyn gynnwys gofyniad cryfach ar bob gweithredwr i ddarparu gwybodaeth glywedol a gweledol.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor deisebau yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno canllawiau statudol mewn perthynas â'r safonau y mae disgwyl i weithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol eu cyrraedd, a hynny yng nghyd-destun seilwaith gwasanaethau bysiau a'r wybodaeth sydd ar gael i deithwyr. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf ym Mhrydain i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr gyflwyno cyhoeddiadau gweledol a chlyweledol ynghylch y stop nesaf, a hynny fel rhan o Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru. Disgwylir y bydd y gofyniad hwn yn parhau os cyflwynir canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol a seilwaith y gwasanaethau bysiau (gwybodaeth mewn arosfannau). Ein bwriad yw cyflwyno cynigion manwl ynghylch sut i gyflawni hyn yn gynnar yn 2018.

Goblygiadau ariannol – Amcangyfrifir mai cost gosod systemau cyhoeddi gweledol a chlyweledol ar gerbydau gwasanaethau cyhoeddus yw tua £4,000 ar gyfer pob cerbyd. Mae asesiad wrthi'n cael ei gynnal o'r costau posibl pe caiff canllawiau statudol eu cyflwyno fel rhan o'r pecyn o gamau ar gyfer diwygio sut y caiff gwasanaethau bysiau lleol eu cynllunio a'u darparu.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen i ddatblygu safonau cenedlaethol cyffredin ar gyfer pob tacsi a cherbyd hurio preifat a gyrwyr pan fydd ganddi'r pwerau i wneud hynny, gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor cyllid yn cefnogi'r angen i gyflwyno safonau cenedlaethol fel rhan o'r gyfundrefn ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru. Bydd cynigion manwl ar gyfer diwygio'r broses drwyddedu yn cael eu cyhoeddi er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach yng ngwanwyn 2018.

Goblygiadau ariannol – Bydd costau unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad yn 2018.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw'n ddymunol cyflwyno gofynion neu gymhellion i weithredwyr cerbydau hurio preifat mawr gadw cwota penodol o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn eu fflydoedd, ac i awdurdodau lleol sicrhau bod cyfran resymol o dacsis trwyddedig yn eu hardaloedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Ymateb: Derbyn

Bydd cynigion manwl ar gyfer diwygio'r drefn drwyddedu yn cael eu cyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus pellach yng ngwanwyn 2018. Er bod y gofynion a roddir ar weithredwyr tacsis a cherbydau hurio preifat o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae awdurdodau trwyddedu lleol wedi cael eu hatgoffa bod angen iddynt gyflawni eu swyddogaethau yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gyflwynwyd gan adran 149 o Ddeddf 2010.

Goblygiadau ariannol – Bydd costau unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad yn 2018.

Argymhelliad 11

Dylai'r safonau cenedlaethol cyffredin i'w datblygu gan Lywodraeth Cymru gynnwys gofyniad i bob gyrrwr yng Nghymru gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd cyffredinol a hyfforddiant penodol yn ymwneud â'r math o gerbyd y mae'n ei yrru.

Ymateb: Derbyn

Bydd cynigion manwl ar gyfer diwygio'r drefn drwyddedu yn cael eu cyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus pellach yng ngwanwyn 2018. Bydd datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o hygyrchedd i staff yn cael ei gynnwys yn amcanion trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, sef amcanion y disgwyliwn eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr. Disgwylir y bydd awdurdodau trwyddedu lleol yn sicrhau bod yr holl yrwyr sy'n gweithio yn eu hardaloedd yn cael yr hyfforddiant a roddir gan Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol – Bydd costau unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad yn 2018.

Argymhelliad 12

Dylai awdurdodau trwyddedu, gyda chymorth Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen, gynnal y ddyletswydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i beidio â chodi tâl ychwanegol am gludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn. Dylid cymryd camau priodol pan fyddant yn cael eu hysbysu am sefyllfaoedd lle mae gyrwyr yn gadael mesuryddion i redeg wrth iddynt gynorthwyo teithwyr mewn cadeiriau olwyn i fynd i mewn i'w cerbydau neu glymu offer.

Ymateb: Derbyn

Mae codi ffioedd uwch i gludo pobl anabl yn achos o wahaniaethu anghyfreithlon. Pan fydd tystiolaeth bod pobl yn dal i codi ffioedd gormodol ar deithwyr anabl, bydd gofyn i awdurdodau trwyddedu lleol sicrhau bod yr arfer hwn yn dod i ben. Mae awdurdodau trwyddedu lleol wedi cael eu hatgoffa o'u dyletswyddau yn hyn o beth.

Goblygiadau ariannol – Awdurdodau lleol, ynghyd â'r incwm o ffioedd a delir gan y rheini sydd â thrwyddedau, sy'n gyfrifol am y costau sy'n gysylltiedig â chamau gorfodi o dan y drefn o drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.